Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range and Dee Valley
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

Cynhaliwyd ar:	**10 Tachwedd 2022**
Aelod/Swyddog Arweiniol:	**David Shiel**
Awdur yr Adroddiad:	**David Shiel**
Teitl:	**Adroddiad ar y Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol**

---

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn rhoi dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol sy'n cynnwys Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol i fabwysiadu Cynllun Rheoli ar gyfer yr ardal ddynodedig. Bu i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo'r Cynllun Drafft ar gyfer Ymgynghoriad Cyhoeddus ym mis Hydref 2021.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Angen Penderfyniad - i fabwysiadu'r Cynllun Rheoli Drafft ar gyfer Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Argymhelliad - Bod y Cyd-bwyllgor yn mabwysiadu'r Cynllun Rheoli Drafft ar gyfer Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

4. Manylion yr adroddiad

Lluniwyd y Cynllun Rheoli drafft hwn yn unol â'r dyletswyddau a roddir ar Awdurdodau Lleol gan Adran 89 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Mae'n gosod agenda ar gyfer diogelu a gwella Nodweddion a Rhinweddau Arbennig yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

Mae'r Cynllun yn amlygu'r prif nodweddion a rhinweddau arbennig sydd gyda'i gilydd yn golygu bod naws arbennig y tirlun ym Mryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy o bwys cenedlaethol. Mae'n cydnabod nifer o heriau mawr a fedrai effeithio ar y tirlun yn y blynyddoedd i ddod ac yn pennu cynllun ar gyfer diogelu a gwella'r nodweddion a rhinweddau arbennig yng nghyd-destun yr heriau hynny.

Mae yno felly bedair prif thema i'r Cynllun:

- **Natur, Tirlun a Threftadaeth:** *Mynd i'r afael â dirywiad rhywogaethau, ymateb i'r argyfwng ecolegol a cheisio mynd i'r afael â dirywiad rhywogaeth allweddol. Rheoli'r cynefinoedd allweddol sy'n rhan o lawer o Nodweddion Arbennig yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol mewn ffordd gynaliadwy.*
- **Addasu i Hinsawdd sy'n Newid:** *Cadernid nodweddion a rhinweddau arbennig yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol rhag newid hinsawdd. Sicrhau bod ein hymateb i newid hinsawdd yn ystyried yr angen i ddiogelu ansawdd y tirlun.*
- **Hamdden, Iechyd a Lles:** *Gwerth yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol wrth gynnal lles corfforol a meddyliol. Gwasgfeydd ar dirweddau bregus yn deillio o hamdden a thwristiaeth. Effaith y pandemig Covid-19 ar ymddygiad ymwelwyr a'r gwasgfeydd ar yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn deillio o hynny.*
- **Yr Economi Wledig:** *Cyfleoedd a heriau i'r economi wledig yn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn sgil y pandemig Covid-19 a diwygio byd amaeth wedi ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.*

Cynhaliwyd Ymgynghoriad Cyhoeddus ar y Cynllun Drafft rhwng 1 Chwefror 2022 a 18 Mawrth 2022. Cafwyd nifer o ymatebion fel y nodir yn atodiad 1.

5. Sut mae'n cyfrannu at Flaenoriaethau Cynlluniau Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy?

Os bydd yn cael ei fabwysiadu, bydd y Cynllun Rheoli drafft 2020 – 2025 hwn yn gosod y blaenoriaethau ar gyfer yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Bydd yn costio oddeutu £5,000 i gyhoeddi'r cynllun a sicrhawyd cyllid gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer hynny.

Bydd y cynllun yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer ceisiadau am gyllid yn y dyfodol gan Gyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru a chyrff cyllido posib eraill.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

- Sir Ddinbych ffyniannus - **Cadarnhaol**
- Sir Ddinbych wydn - **Cadarnhaol**
- Sir Ddinbych iachach - **Cadarnhaol**
- Sir Ddinbych sy'n fwy cyfartal – **Cadarnhaol**
- Sir Ddinbych gyda chymunedau cydlynol - **Cadarnhaol**
- Sir Ddinbych lle mae diwylliant bywiog a'r iaith Gymraeg yn ffynnu - **Cadarnhaol**
- Sir Ddinbych sy'n gyfrifol yn fyd-eang – **Cadarnhaol**

Mae’r prosiect yn canolbwyntio ar ddiogelu a gwella ansawdd y tirlun arbennig ym Mryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a'r amryfal fuddion y mae'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn eu cynnig o ran iechyd y cyhoedd, bioamrywiaeth, cynaladwyedd a’r economi twristiaeth. Mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn Dirlun Categori V yn ôl yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur, sy’n golygu y caiff ei gydnabod yn fyd-eang fel tirlun o bwys.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Haf 2020 - Holiadur ar-lein
Haf 2020 – Holiadur drwy e-bost i Bartneriaeth yr AHNE, Gweithgorau a Budd-ddeiliaid eraill
Hydref 2021 – Cyfarfod Ymgynghori â Budd-ddeiliaid gyda Phartneriaeth yr AHNE a Gweithgorau
Ymgynghoriad cyhoeddus Chwefror 2022

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Amherthnasol

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae’n ddyletswydd statudol ar Awdurdodau Rheoli unrhyw Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol i gyhoeddi Cynllun Rheoli ar gyfer yr ardal ddynodedig yn unol â'r rheoliadau yn Adran 89 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. Byddai methu â mabwysiadu cynllun yn golygu na fyddai’r Cyd-bwyllgor yn cyflawni’r ddyletswydd hon.

Byddai unrhyw gyllid i’r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn y dyfodol gan Gyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar gael Cynllun wedi’i gytuno a’i fabwysiadu.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Mae'r sail Gyfreithiol yn Adran 101 (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Llywodraeth Leol 2000, lle gall Awdurdodau Lleol wneud trefniadau i 'gyflawni swyddogaethau ar y cyd gydag un neu fwy o Awdurdodau Lleol eraill drwy Gyd-bwyllgor'.